

COBB, JOSEPH RICHARD (1821 - 1897), hynafiaethydd, o Aberhonddu.

Enw: Joseph Richard Cobb
Dyddiad geni: 1821
Dyddiad marw: 1897
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 25 Ebrill 1821 yn Broughton Castle, swydd Rhydychen. Cyfreithiwr oedd ef wrth ei alwedigaeth, a chyda hynny hyrwyddwr ffyrdd haearn; efó, er enghraifft, a oedd y tu cefn i'r 'Brecon and Merthyr Railway.' Ond hynafiaethau oedd ei brif ddiddordeb, ac yr oedd yn aelod blaenllaw o Gymdeithas Hynafiaethau Cymru. Bu wrth y gwaith o wella cyflwr eglwys y Priordy (bellach yn eglwys gadeiriol) yn Aberhonddu (gweler ei *Short Account of S. John the Evangelist... at Brecon*, 1874), a hefyd gastell Maenor Byr; prynodd ac adferodd gastell Caldicot, gerllaw Casgwent (Chepstow). Bu farw 6 Rhagfyr 1897.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1897, 256

Theophilus Jones, Edwin Davies, Joseph Russell Bailey, *History of the County of Brecknock*, ii, 83-6, 160, iv, 47

gwybodaeth gan Mr J. C. Parry de Winton, Aberhonddu

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733732](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733732)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). COBB, JOSEPH RICHARD (1821 - 1897), hynafiaethydd, o Aberhonddu.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-COBB-RIC-1821>

Prifysgol

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government